OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2193

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

## RHAN II

### DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**Amrywogaethau o winwydd**

**5.** At ddibenion Erthygl 19(1) a (2) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ac Erthygl 20 o Reoliad y Comisiwn (EC) 1227/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin, o ran y potensial ar gyfer cynhyrchu(**1**), yr amrywogaethau o winwydd sydd wedi'u dosbarthu ar gyfer cynhyrchu gwin yng Nghymru yw'r rhai a bennir yn Atodlen 3, ac ymhlith y rheiny mae'r rhai na chaniateir mohonynt ar gyfer cynhyrchu gwin o safon psr yn y rhanbarthau penodedig wedi'u dynodi â seren.

(**1**) OJ Rhif L143, 16.6.2000, t.1.